# Nodiadau Cyfarwyddyd y Cynllun Absenoldeb a Thâl Babanod Cynamserol a Babanod sydd yn yr Ysbyty

Chwefror 2023



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Mae'r cynllun hwn ar gael i gefnogi llesiant gweithiwr yn ystod cyfnod heriol iawn.

**Cymhwysedd**

Mae'r cynllun hwn yn berthnasol i'n holl weithwyr gan gynnwys athrawon a gyflogir yn ganolog ac eithrio staff ysgolion a reolir yn lleol, y bydd y polisi a fabwysiadwyd gan eu hysgolion priodol yn berthnasol iddynt. (Mae cyfeiriad at riant neu bartner yn cynnwys yr holl rieni neu bartneriaid waeth beth fo'u rhyw, eu hunaniaeth o ran rhywedd a chyfeiriadedd rhywiol)

**Meini Prawf Cymhwyso**

Nid oes angen isafswm o wasanaeth i fod yn gymwys.

Er mwyn gwneud cais am Absenoldeb Babanod Cynamserol a Babanod sydd yn yr Ysbyty â Thâl, rhaid bod y gweithiwr yn gyfrifol am blentyn h.y., bod yn un o'r canlynol:

- Rhiant biolegol sy'n disgwyl y plentyn
- Rhiant mabwysiadol neu riant benthyg y plentyn
- Partner sifil y gweithiwr sy'n disgwyl y plentyn
- Gofalwr enwebedig y plentyn (gweithwyr sydd wedi'i ddewis gan y rhiant sy'n disgwyl/prif fabwysiadwr fel y gofalwr enwebedig)

Hefyd, gofynnir am y ddogfennaeth ganlynol i gefnogi cais:

- Ffurflen Gais (gellir ei llenwi a'i chyflwyno drwy e-bost)
- Tystysgrif MAT B1
- Copi o dystysgrif geni

**Baban Cynamserol - Absenoldeb a Thâl**

Gall gweithwyr â babanod sy'n cael eu geni cyn 37 wythnos wneud cais am Wythnos o Absenoldeb Babanod cynamserol â thâl ar gyfer pob wythnos y mae'r baban cynamserol yn yr ysbyty cyn y dyddiad geni disgwyliedig.

**a. Absenoldeb Babanod Cynamserol**

Bydd y cyfnod hwn o absenoldeb babanod cynamserol yn dechrau ar ddiwedd hawl y gweithiwr i absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth neu dadolaeth.

**b. Tâl Baban Cynamserol**

Gall gweithwyr ddewis bod tâl baban cynamserol yn cael ei dalu fel a ganlyn:

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

- Yn ystod y cyfnod Absenoldeb Baban Cynamserol;

  **neu**

- Fel cyfandaliad ar ddechrau'r absenoldeb drwy'r gyflogres nesaf sydd ar gael (ar ôl rhoi gwybod i'r Tîm Presenoldeb) yn ychwanegol at eich absenoldeb a'ch tâl mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth a thadolaeth. Bydd hawl arferol y gweithiwr i dâl absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth a thadolaeth yn parhau ac ni effeithir arni gan y cynllun hwn (yn amodol ar dreth incwm, yswiriant gwladol a didyniadau pensiwn, yn unol ag enillion y gweithiwr). **(Noder, lle mae gweithiwr wedi dewis cael cyfandaliad ar gyfer tâl babanod cynamserol, bydd y cyfnod ychwanegol hwn o absenoldeb babanod cynamserol heb dâl)**

Bydd y Tâl Babanod Cynamserol yn cael ei dalu yn ystod y cyfnod o Absenoldeb Babanod Cynamserol ar ôl i gyfnod absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth neu dadolaeth y gweithiwr ddod i ben oni bai bod y gweithiwr wedi dewis cael cyfandaliad.

Os yw gweithiwr yn dewis cael cyfandaliad ar gyfer cyfnod o absenoldeb babanod cynamserol ac yn dewis dychwelyd i'r gwaith cyn diwedd y cyfnod absenoldeb, bydd angen ad-dalu unrhyw wythnosau sy'n weddill. Bydd cyflog arferol yn ailddechrau o'r dyddiad dychwelyd i'r gwaith.

**Tâl ac absenoldeb ar gyfer rhieni â baban tymor llawn sydd yn yr ysbyty**

Bydd rhieni â babanod sy'n gorfod aros yn yr ysbyty yn union ar ôl genedigaeth tymor llawn (ar ôl 37 wythnos) oherwydd salwch yn gallu gwneud cais am Absenoldeb Baban Tymor Llawn yn yr Ysbyty â thâl am gyfnod o hyd at bedair wythnos. Bydd y cyfnod hwn o absenoldeb baban yn yr ysbyty yn dechrau ar ddiwedd hawl y gweithiwr i gyfnod o absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth neu dadolaeth.

**Absenoldeb baban yn yr ysbyty**

Bydd y cyfnod hwn o absenoldeb baban yn yr ysbyty yn dechrau ar ddiwedd hawl y gweithiwr i gyfnod o absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth, neu dadolaeth.

**Tâl Baban yn yr Ysbyty**

Gall rhieni ddewis bod **Tâl Baban yn yr Ysbyty** yn cael ei dalu fel a ganlyn:

- Yn ystod y cyfnod Absenoldeb Baban yn yr Ysbyty;

**NEU**

- Fel cyfandaliad ar ddechrau eich absenoldeb drwy'r gyflogres nesaf sydd ar gael ar ôl rhoi gwybod i'r Tîm Presenoldeb yn ychwanegol at eich absenoldeb a'ch tâl mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth a thadolaeth. Bydd hawl arferol y gweithiwr i dâl absenoldeb mamolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhieni ar y cyd, cymorth mamolaeth a thadolaeth yn parhau ac ni fydd yn cael ei effeithio gan y cynllun hwn (yn amodol ar dreth incwm, yswiriant gwladol a didyniadau pensiwn, yn unol ag enillion y gweithiwr). **(Noder, lle mae rhiant wedi dewis cael cyfandaliad bydd y cyfnod ychwanegol hwn o absenoldeb heb dâl)**

Os yw gweithiwr yn dewis cael cyfandaliad ar gyfer y cyfnod o absenoldeb baban yn yr ysbyty ac yn dewis dychwelyd i'r gwaith cyn diwedd yr absenoldeb, bydd angen ad-dalu unrhyw wythnosau sy'n weddill. Bydd cyflog arferol yn ailddechrau o'r dyddiad dychwelyd i'r gwaith.

**Cyfrifo'r Tâl**

Bydd cyfrifo'r tâl ar gyfer Tâl Babanod yn yr Ysbyty a Babanod Cynamserol yn cael ei wneud drwy gyfeirio at oriau contract gweithiwr ar y dyddiad y mae'r baban yn gorfod aros yn yr ysbyty hyd at 37 awr yr wythnos.

**<u>Enghreifftiau ar gyfer Absenoldeb Baban Cynamserol a Thâl</u>**

1. Mae baban yn cael ei eni yn ystod wythnos 28 o'r beichiogrwydd; mae'r rhiant yn gweithio i CSC ac yn gymwys i gael absenoldeb tadolaeth - beth ydyn ni'n ei dalu?

   Os yw'r baban yn cael ei eni yn ystod wythnos 28 o'r beichiogrwydd ac mae yn yr ysbyty tan y dyddiad geni disgwyliedig, gall y rhiant wneud cais am 12 wythnos o absenoldeb a thâl. Bydd hyn yn cynnwys pythefnos o absenoldeb tadolaeth â thâl ac wedyn 12 wythnos o absenoldeb baban cynamserol â thâl yn syth ar ôl yr absenoldeb tadolaeth. (Heb dâl os dewisir cyfandaliad)

   Mae baban yn cael ei eni yn ystod wythnos 36 o'r beichiogrwydd; mae'r rhiant yn gweithio i CSC ac yn gymwys i gael absenoldeb tadolaeth - beth ydyn ni'n ei dalu?

   Os yw'r baban yn cael ei eni yn ystod wythnos 36 o'r beichiogrwydd ac mae'n aros yn yr ysbyty tan y dyddiad geni disgwyliedig, bydd y rhiant yn gymwys i wneud cais am bedair wythnos o absenoldeb â thâl. Bydd hyn yn cynnwys pythefnos o absenoldeb tadolaeth ac wedyn pedair wythnos o absenoldeb

baban cynamserol â thâl yn syth ar ôl yr absenoldeb tadolaeth. (Heb dâl os dewisir cyfandaliad)

**Enghreifftiau o Absenoldeb Baban Tymor Llawn yn yr Ysbyty a Thâl**

1. Mae gennym gais am absenoldeb baban yn yr ysbyty yn dilyn genedigaeth yn ystod wythnos 38, gall rhiant gael hyd at uchafswm o bedair wythnos o absenoldeb baban yn yr ysbyty â thâl. Felly, os yw'r baban yn yr ysbyty am bythefnos bydd y rhiant yn cael pythefnos ond os yw'r baban yn yr ysbyty am chwe wythnos, bydd y rhiant yn cael **uchafswm o bedair** wythnos o absenoldeb baban cynamserol â thâl. (Heb dâl os dewisir cyfandaliad).

**SICRHAU CYFLE CYFARTAL**

Rhaid i bob gweithiwr fabwysiadu agwedd gadarnhaol, agored a theg a gofalu y cedwir at Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yr Awdurdod ac y caiff ei weithredu'n gyson heb ystyried hil, lliw, cenedligrwydd, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oed, rhyw, ailbennu rhywedd, hunaniaeth rywedd a mynegiant rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil. Yn ogystal, mae Safonau'r Gymraeg yn gofyn i ni 'sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg' a dylid defnyddio'r egwyddor hon wrth gymhwyso'r canllawiau hyn.

Os oes gennych bryderon ynghylch cydraddoldeb ac amrywiaeth yng nghyswllt gweithredu'r canllawiau hyn, cysylltwch ag un o'r Tîm Adnoddau Dynol a fydd, os bydd angen, yn sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei hadolygu'n unol â hynny.

Os oes angen y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall arnoch, cysylltwch â'r Tîm Rheoli Pobl drwy anfon neges e-bost at CEDutyHR@sirgar.gov.uk

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council